Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Bwrdd Diogelu Gwent

## Arweiniad Arferion Da

## Cymryd Penderfyniadau mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant



Cadarnhawyd gan y Bwrdd
Mawrth 2022

Grŵp Protocolau
a Gweithdrefnau

Dyddiad Adolygu
Mawrth 2025

## Cynnwys

**Tudalen**


| | |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | 3 |
| 2. Y Broses o Gymryd Penderfyniad mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant | 3 |
| 3. Plant sy'n Derbyn Gofal | 5 |
| 4. Grwpiau Proffesiynol | 6 |
| 5. Eraill sy'n Bresennol | 7 |
| 6. Materion Penodol | 7 |
| Atodiad 1<br>Adroddiad Cynhadledd Aml-Asiantaeth Amddiffyn Plant | 9 |
| Templed<br>Adroddiad Cynhadledd Aml-Asiantaeth Amddiffyn Plant | 11 |

# 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r canllaw arferion da hwn yn rhoi gwybodaeth i ymarferwyr sy'n mynychu Cynadleddau Amddiffyn Plant a'r disgwyliadau a roddir arnynt.

1.2 Mae'n rhoi cyngor a chyfarwyddyd mewn perthynas â chymryd penderfyniadau mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant.

1.3 Mae'r canllaw hwn yn rhoi cyngor ar y broses o wneud cyflwyniadau os yw gweithwyr proffesiynol neu deuluoedd sy'n mynychu cynhadledd eisiau mynegi pryderon neu wneud cwyn ffurfiol.

1.4 Dylid darllen y canllaw hwn ar y cyd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

# 2. Y Broses o Gymryd Penderfyniad mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant

2.1 Ar ôl cyflwyno a thrafod adroddiadau ysgrifenedig a llafar, a chyfraniad gan y teulu, ac ar ôl clywed llais y plentyn pan fo hynny'n briodol, bydd Cadeirydd y gynhadledd yn crynhoi'r wybodaeth. Mae rôl y Cadeirydd yn cynnwys rhoi'r ffeithiau a gyflwynwyd mewn cyd-destun sy'n gallu delio gyda'r ffactorau risg sy'n deillio o'r wybodaeth. Bydd y Cadeirydd wedyn yn gofyn i aelodau'r gynhadledd os ydynt yn teimlo bod hwn yn grynodeb cywir, cyn mynd ymlaen.

2.2 Wedyn, gofynnir i aelodau'r Gynhadledd gyflwyno eu barn nhw o'r risgiau, cryfderau ac anghenion yn seiliedig ar yr holl wybodaeth a rannwyd yn y gynhadledd. Gofynnir iddynt os ydynt yn teimlo bod y plentyn angen Cynllun Diogelu Gofal a Chymorth ac felly a ddylid rhoi eu henw ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

2.4 Dylid cofnodi bod plentyn mewn perygl parhaus o gamdriniaeth, esgeulustra neu niwed dan un o'r categorïau canlynol. Cymerir y penderfyniad o ran pa gategori sy'n berthnasol gan yr ymarferwyr yn y gynhadledd amddiffyn plant.

Y categorïau yw

- cam-drin corfforol;
- cam-drin emosiynol neu seicolegol;
- cam-drin rhywiol;
- cam-drin ariannol;
- esgeulustra.

I gael esboniad llawn o'r categorïau, cyfeiriwch at Awgrymiadau Ymarfer: Arwyddion o Gamdriniaeth, Esgeulustod a Niwed Posibl mewn Plentyn, Gweithdrefnau Diogelu Cymru yma

2.5 Er mwyn hyrwyddo cysondeb a ffocws, mae pob un o'r pum Pennaeth Gwasanaethau Plant Awdurdod Lleol yng Ngwent wedi penderfynu y dylid ond defnyddio un categori wrth gofrestru. Mae'r Gweithdrefnau Diogelu Plant (2019) yn dweud wrthym y dylai hyn:

- ddweud wrth y sawl sy'n edrych ar y gofrestr beth yw'r prif bryderon adeg cofrestru;
- adlewyrchu'r holl wybodaeth/dystiolaeth a gafwyd yn ystod ymchwiliadau a47 a dadansoddiad wedi hynny, ac ni ddylai ymwneud ag un achos neu fwy o gamdriniaeth
- bod yn benodol i bob plentyn yn y teulu sy'n cael ei roi ar y gofrestr.

Rhoddir enw'r plentyn ar y gofrestr er mwyn:

- hysbysu pob ymarferwr sy'n gweithio gyda phlentyn o'u perygl o gael eu niweidio;
- cadarnhau bod cynllun amddiffyn gofal a chymorth ar gyfer y plentyn yn bodoli a bod angen cydymffurfio â'r cynllun.
- bod gweithiwr cymdeithasol a grŵp craidd o ymarferwyr yn gweithio gyda'r plentyn a'r teulu.

2.6 Rhaid i bob gweithiwr proffesiynol sy'n mynychu'r gynhadledd fod yn ymwybodol eu bod yn rhan o'r broses o gymryd penderfyniad ac na allant ymwrthod â'u cyfrifoldeb. Mae nifer o faterion amddiffyn parhaus lle dylid cael trafodaeth ynglŷn â pha gategori yw'r prif bryder er mwyn cymryd penderfyniad, ac maent yn gyfrifol am leisio eu barn broffesiynol nhw er mwyn dod i benderfyniad terfynol.

Os oes nifer o faterion diogelu parhaus, dylid cael trafodaeth ar ba gategori yw'r prif bryder er mwyn gallu dod i benderfyniad

2.7 Dylai'r penderfyniad terfynol adlewyrchu barn y mwyafrif yn y gynhadledd. Lle bynnag y bo modd, dylai aelodau'r gynhadledd anelu at gael consensws o ran a yw'r plentyn mewn perygl parhaus o niwed arwyddocaol.

2.8 Lle na ellir cael consensws, dylai'r Cadeirydd geisio datrys pethau e.e. drwy ail-grynhoi'r materion a hwyluso trafodaeth bellach.

2.9 Dim ond lle mae gwahaniaeth barn na ellir ei ddatrys y dylai'r broses o gymryd penderfyniad fynd i sefyllfa o bleidleisio, gyda'r person a enwebwyd neu'r person arweiniol o bob asiantaeth yn pleidleisio ar gofrestru. Dylid osgoi pleidlais cyn belled ag y gellir gwneud hynny.

2.10 Dylai pleidlais fod yn seiliedig ar asiantaethau a/neu grwpiau proffesiynol, nid unigolion, a restrir isod yn Rhan 2. Dylai'r Cadeirydd adnabod yn glir y grwpiau proffesiynol perthnasol i ddibenion pleidleisio. Dylai'r uwch staff yn y gynhadledd o bob asiantaeth gynorthwyo gyda'r broses hon a sicrhau bod grwpiau proffesiynol yn cael eu cadw i'r nifer leiaf. Gall hyn olygu egwyl fer yn y gynhadledd er mwyn hwyluso. Dylai fod gan bob asiantaeth drefniadau i sicrhau cysondeb yn y broses hon.

2.11 Y nod yw dod i benderfyniad y mwyafrif. Bydd yr asiantaethau nad ydynt yn cytuno gyda barn y mwyafrif yn cael eu rhestru yn y cofnod ysgrifenedig o'r gynhadledd.

2.12 Os yw'r bleidlais wedi ei rhannu 50/50, bydd gan y Cadeirydd y bleidlais fwrw, o ran a yw'r plentyn mewn perygl parhaus o niwed arwyddocaol ac angen Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth, ac felly a ddylid rhoi eu henw ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

2.13 Os yw'r Cadeirydd yn credu bod y penderfyniad yn peryglu'r plentyn rhaid iddo/iddi nodi hyn yn y gynhadledd a chynnwys eu pryderon yn eu Crynodeb. Yn union wedi'r gynhadledd, rhaid iddynt gyflwyno eu pryderon i'r Uwch Reolwr sy'n gyfrifol am amddiffyn plant.

2.14 Mae gan y Cadeirydd hefyd yr opsiwn o ddelio gydag unrhyw anghytundeb proffesiynol, yn yr un modd ag unrhyw un o aelodau'r gynhadledd, os ydynt yn teimlo nad yw'r plentyn yn cael ei amddiffyn yn ddigonol. Yn wir, mae gan bob gweithiwr proffesiynol ddyletswydd i ymchwilio i bryderon parhaus. (Cyfeiriwch at y Protocol ar gyfer Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol yma) Ar ôl i'r Gynhadledd ddod i benderfyniad, mae'n hanfodol bod pob aelod yn trafod a chyfrannu at unrhyw Gynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth i ddelio gyda'r risgiau a adnabuwyd.

2.15 Efallai y bydd rhieni, gofalwyr a phlant/pobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y broses eisiau gwneud cwyn. Bydd Cadeirydd y gynhadledd yn sicrhau bod aelodau'r teulu yn ymwybodol y gellir cwyno mewn perthynas ag agweddau canlynol gwaith y Gynhadledd Amddiffyn Plentyn ddiweddaraf:

- Proses y gynhadledd ddiweddaraf o ran glynu at weithdrefnau;
- Y penderfyniad cofrestru, gan gynnwys categori cofrestru, a oedd yn deillio o'r broses / weithdrefn a ddilynwyd;
- Y penderfyniad i beidio â chofrestru neu i ddadgofrestru, a oedd yn deillio o'r broses / weithdrefn a ddilynwyd.

Cyfeiriwch at Weithdrefn Bwrdd Diogelu Gwent i gael esboniad manylach o bryd mae hyn yn bosibl yma

## 3. Plant sy'n Derbyn Gofal

3.1 Pan fydd plentyn ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn dechrau derbyn gofal [megis dan nawdd Gorchymyn Gofal Interim, Gorchymyn Gofal, Gorchymyn Goruchwylio, caniatâd gwirfoddol i lety Adran 76 ac ati] dylai'r Gynhadledd Adolygu Amddiffyn Plant ystyried a yw hyn wedi lleihau'r risg o niwed sylweddol i'r plentyn ai peidio.

Cymharol ychydig o amgylchiadau sydd lle dylai enw plentyn aros ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Mae hyn oherwydd, pan fydd plentyn yn dechrau derbyn gofal, bod mwy o fesurau diogelu ar waith bellach i amddiffyn y plentyn a lleihau'r risgiau, sy'n disodli'r Cynllun Amddiffyn Plant. Bydd unrhyw risgiau sy'n weddill yn cael eu rheoli mewn meysydd eraill, megis prosesau Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Llys.

Pe bai pryderon diogelu pellach yn codi, os bydd angen, byddai'r Awdurdod Lleol yn cymryd camau brys i ddiogelu'r plentyn a cheisio cyngor cyfreithiol.

Pan fydd plentyn yn cael ei dynnu oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, bydd gweithiwr proffesiynol arweiniol yn parhau i gael ei neilltuo, bydd ymweliadau cartref yn parhau, bydd cynllun plentyn yn cael ei ddatblygu, a bydd cyfarfodydd adolygu aml-asiantaeth yn cael eu cynnal (er enghraifft cyfarfodydd adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal).

## 4. Grwpiau Proffesiynol

4.1 Cytunwyd yr enghreifftiau canlynol o grwpiau proffesiynol gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Plant (gan gynnwys holl dimau gwaith cymdeithasol, a’r holl wasanaethau gyda rheolwr llinell yn y Gwasanaethau Plant e.e. gwasanaethau maethu),

- Gwasanaethau Iechyd Plant (gan gynnwys Pediatregydd, Ymwelydd Iechyd, Nyrs Ysgol, Nyrs Bediatrig – acíwt a chymuned, Therapi Lleferydd. Bydwreigiaeth, Nyrsys Arbenigol, Ffisiotherapydd, Nyrs Allgymorth Cyn-enedigaeth, CAMHS, Meddyg Teulu)
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid
- Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion (gan gynnwys holl dimau gwaith cymdeithasol, a’r holl wasanaethau sydd â rheolwr llinell yn y Gwasanaethau Oedolion e.e. gwasanaethau lleoli oedolion, timau cymorth cymunedol)
- Gwasanaethau Iechyd Oedolion (gan gynnwys Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Anabledd Dysgu, Bydwreigiaeth, Meddyg Teulu, Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau)
- Yr Heddlu, yn cynnwys PPU a Swyddogion Rhanbarthol
- Gwasanaeth Prawf
- Tai (gan gynnwys cymorth tenantiaeth neu Gymdeithasau Tai)
- Addysg, gan gynnwys ysgolion cynradd, uwchradd, meithrinfeydd
- Swyddog Lles Addysg yr Awdurdod Lleol, Gweithwyr Proffesiynol Cymorth Addysg
- Darparwyr Blynyddoedd Cynnar cyn ysgol gan gynnwys Dechrau’n Deg (ac eithrio ymwelwyr iechyd)
- Grwpiau gwirfoddol, gan gynnwys Cymorth i Fenywod, Gweithredu dros Blant, Barnardo's,
- NSPCC (nid adfocatiaeth), Homestart,
- Unrhyw asiantaeth arall yn unol â disgresiwn y Cadeirydd

(Nodwch os ydych yn rhan o dîm aml-asiantaeth, byddwch yn cael un bleidlais yn ôl y gwasanaeth rydych yn ei gynrychioli e.e. gall y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol eistedd gyda Gwasanaethau Cymdeithasol oedolion neu’r Gwasanaethau Iechyd)

4.2 Dylai cofnod ysgrifenedig y gynhadledd adlewyrchu’r grwpiau proffesiynol, gan gynnwys sefyllfaoedd lle mae’r Cadeirydd yn cymryd penderfyniad terfynol ar grwpiau o’r fath, a’r rhesymeg y tu ôl i’r penderfyniad hwn. Bydd y cofnod ysgrifenedig hefyd yn cynnwys unrhyw wahaniaeth barn yn y gynhadledd, gan gynnwys unrhyw bryderon a godwyd gan y Cadeirydd mewn perthynas â diogelwch y penderfyniad.

## 5. Eraill sy'n Bresennol

5.1 Mae pobl eraill hefyd sy'n mynychu Cynadleddau Amddiffyn Plant, nad ydynt yn rhan o'r broses benderfynu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Rhieni,
- Plant a phobl ifanc,
- Aelodau teuluol sydd yno mewn rôl o roi cymorth i rieni,
- Adfocad ar ran y plentyn,
- Cynrychiolwyr cyfreithiol rhieni neu bobl ifanc,
- Staff Arolygiaeth Gofal Cymru,
- CAFCASS,
- Gofalwyr maeth a gofalwyr preswyl.

5.2 Dylid gofyn am farn rhieni, plant, pobl ifanc ac aelodau'r teulu ond y gweithwyr proffesiynol sy'n gyfrifol am gymryd y penderfyniad terfynol.

5.3 Yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru, bydd y gynhadledd hefyd yn ystyried os byddai Cynllun Gofal a Chymorth yn fwy priodol dan amgylchiadau lle na thybir bod angen Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth.

5.4 Bydd gofyn i bob gweithiwr proffesiynol a wahoddir i fynychu cynhadledd gyflwyno adroddiad yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru (gweler Atodiad A am ganllaw). Bydd gan rai sefydliadau, megis Gwasanaethau Plant, yr Heddlu ac Iechyd dempled adrodd safonol y maent yn ei ddefnyddio eisoes. Mae'n ofyniad bod adroddiadau yn cael eu rhoi i a'u trafod gyda rhieni, a phlant os yw'n briodol, o leiaf 24 awr cyn y gynhadledd. Bydd gofyn i rieni/ofalwyr lofnodi adroddiadau i gydnabod eu bod wedi gweld y ddogfen. Os na allant lofnodi'r ddogfen yn gorfforol, rhaid i awdur yr adroddiad gael cytundeb llafar bod yr adroddiad wedi ei rannu gyda'r rhieni/gofalwyr.

Os na all gweithiwr proffesiynol fynychu'r gynhadledd, dylai o hyd gyflwyno adroddiad a dylai hwn gynnwys eu barn nhw o ran y risg i'r plentyn, yn seiliedig ar yr hyn maent yn ei wybod am y plentyn a'r teulu.

5.5 Os bydd cynrychiolydd o'r asiantaeth yn mynychu ar ran y gweithiwr proffesiynol i gyflwyno'r adroddiad, dylai'r Cadeirydd sicrhau bod y farn hon yn ffurfio rhan o'r drafodaeth yn y gynhadledd, wrth gofio mai barn a luniwyd heb allu clywed cyfraniadau'r gweithwyr proffesiynol eraill yn y gynhadledd yw hon. Yn seiliedig ar yr wybodaeth a rannwyd yn y gynhadledd, gall y gweithiwr proffesiynol sy'n bresennol lunio barn mwy cyfannol a phleidleisio yn unol â hynny.

## 6. Materion Penodol

6.1 Os mai dim ond un cynrychiolydd ysgol sy'n bresennol a dim ond un plentyn yn y teulu sy'n mynychu'r ysgol honno, gofynnir iddynt gyfrannu i gymryd penderfyniad ar ran eu hasiantaeth mewn perthynas â phob un o'r plant a drafodir yn y gynhadledd, yn seiliedig ar y ffaith eu bod wedi clywed yr holl wybodaeth berthnasol yn y gynhadledd.

6.2 Mewn sefyllfa lle mae grwpiau o frodyr neu chwiorydd ac nid oes cytundeb, yna bydd pob plentyn yn cael ei ystyried ar wahân gyda'r grwpiau proffesiynol hynny sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlentyn unigol yn pleidleisio ar gofrestru'r plentyn hwnnw ai peidio.

6.3 Mae gan y Cadeirydd gyfrifoldeb i sicrhau, os yw rhieni yn anghytuno gyda'r penderfyniad neu os ydynt yn anhapus gyda sut mae'r gynhadledd wedi ei chynnal, eu bod yn cael gwybodaeth am broses apelio / gwyno'r bwrdd diogelu a bod opsiwn iddyn nhw apelio yn erbyn y penderfyniad. Bydd panel annibynnol yn delio gyda chwynion ac mae ganddynt yr opsiwn i ofyn am ail-alw'r gynhadledd os caiff y gŵyn ei chadarnhau.

Atodiad 1

# ADRODDIAD CYNHADLEDD AML-ASIANTAETH AMDDIFFYN PLANT

**Cwblhau Adroddiad Cynhadledd Aml-asiantaeth Amddiffyn Plant**

Dylid cwblhau'r templed Adroddiad Cynhadledd Aml-asiantaeth Amddiffyn Plant gan bob gweithiwr proffesiynol i gyflwyno gwybodaeth i'r gynhadledd.

Dylid darparu'r adroddiad i'r rhieni a'i drafod gyda nhw, a gyda'r plant os yw'n briodol, o leiaf 24 awr cyn y gynhadledd. Mae'n bwysig nad yw rhieni yn clywed gwybodaeth newydd yn y gynhadledd ac mae'n gyfrifoldeb i **bob asiantaeth** sydd â gwybodaeth berthnasol bod hon ar gael i'r gynhadledd ar ffurf adroddiad ysgrifenedig, darllenadwy, wedi ei lofnodi. Bydd gofyn i rieni/gofalwyr lofnodi'r adroddiad i gydnabod eu bod wedi gweld y ddogfen.

Unwaith y bydd yr adroddiad wedi ei drafod gyda'r rhieni, dylid ei roi i Gadeirydd y Gynhadledd o leiaf 24 awr cyn y gynhadledd gyntaf a phum diwrnod gwaith cyn cynhadledd arolygu.

Mae'r amserlenni hyn yn bodoli er mwyn rhoi amser digonol i deuluoedd i baratoi ar gyfer cyfarfodydd mor bwysig am fywyd eu teulu.

Disgwylir y bydd pob asiantaeth yn darparu adroddiad ysgrifenedig ar gyfer y gynhadledd.


**Cyfrinachedd**

Dylid ond rhannu gwybodaeth a rennir yn llafar neu ar bapur yn y Gynhadledd y tu allan i'r cyfarfod os yw i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Mae adroddiadau a chofnodion cynhadledd yn gyfrinachol ac ni ddylid eu rhoi i drydydd parti heb ganiatâd y rhieni neu orchymyn llys.

**Cyfarwyddyd ar gwblhau Adroddiad Cynhadledd**

Ysgrifennwch yr adroddiad yn seiliedig ar eich gwybodaeth broffesiynol chi a'ch dealltwriaeth o'r plentyn a'r teulu. **Gan fod hon yn ffurflen generig, rhaid i chi sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol gan eich asiantaeth neu eich maes arbenigol wedi ei chynnwys.**

Efallai yr hoffech gyfeirio at y triongl Fframwaith Asesu i gynorthwyo gyda'ch asesiad:



**Gwybodaeth am rieni/gofalwyr ac aelodau arwyddocaol o'r teulu neu'r aelwyd**

Dylai'r adran hon gynnwys **pob** aelod o'r aelwyd sy'n hysbys i'ch asiantaeth gan gynnwys unrhyw un sy'n byw ar yr aelwyd a phobl arwyddocaol nad ydynt yn byw ar yr aelwyd.

**Trosolwg o waith eich asiantaeth gyda'r plentyn/plant a'r teulu**

Dylai'r adran hon gynnwys rhesymau pam fo eich asiantaeth yn gweithio gyda'r teulu, presenoldeb a lefel ymgysylltu, gwasanaethau neu ofal a roddwyd, pa mor hir y bu'r ymgysylltiad, cynnydd hyd yma ac unrhyw gamau gweithredu hwb eu cwblhau.

**Risgiau neu Bryderon Cyfredol**

Dylai'r adran hon gynnwys unrhyw ffactorau sydd, yn eich barn chi, yn cynrychioli risg o niwed arwyddocaol neu gynnydd yn y risg o niwed i'r plentyn/plant.

**Ffactorau hanesyddol neu ffactorau sy'n cymhlethu**

Dylai'r adran hon gynnwys unrhyw hanes blaenorol o bryderon o fewn y teulu, unrhyw beth a all lesteirio datrys y risgiau presennol ac unrhyw ymgysylltiad blaenorol gyda'ch asiantaeth.

**Ffactorau Diogelwch / Amddiffynnol**

Dylai'r adran hon gynnwys ffactorau rydych yn credu eu bod yn lleihau'r risg o niwed i'r plentyn/plant neu helpu i sicrhau diogelwch.

**Cryfderau / Ffactorau Positif**

Dylai'r adran hon gynnwys unrhyw nodweddion o fywyd teulu a rhianta sy'n cael effaith bositif ar fywyd y plentyn / fywydau'r plant ac unrhyw beth y mae'r rhieni/gofalwyr yn ei wneud yn dda a phe na byddent yn ei wneud, a fyddai'n cael ei ystyried fel ffactor risg.

**Meysydd Amwys**

Dylai hyn ymgorffori unrhyw feysydd sy'n aneglur neu a allai fod o bryder posibl i'r plentyn/plant ond sydd angen mwy o amser, esboniad neu asesiad.

**Digwyddiadau Arwyddocaol**

Dylai'r adran hon gynnwys manylion unrhyw ddigwyddiadau, anafiadau neu ddigwyddiadau arwyddocaol y mae eich asiantaeth chi yn ymwybodol ohonynt ynghyd â'r dyddiad a chrynodeb byr o'r digwyddiad.

**Adran gweithwyr Iechyd Proffesiynol**

Dim ond gweithwyr iechyd proffesiynol a ddylai gwblhau'r adran hon.

***Os gwelwch yn dda, peidiwch â rhannu'r cyfarwyddyd uchod gydag aelodau'r teulu pan fyddwch yn rhannu'r adroddiad.***

# TEMPLED ADRODDIAD CYNHADLEDD AML-ASIANTAETH AMDDIFFYN PLANT

| **Manylion yr Asiantaeth** | |
|---|---|
| **Enw'r Gweithiwr Proffesiynol** | |
| **Teitl y Swydd** | |
| **Enw'r Asiantaeth** | |
| **Cyfeiriad Ebost** | |
| **Rhif Ffôn** | |

| | **Gwybodaeth am y plentyn / plant** | |
|---|---|---|
| **Enw** | **Rhif GIG** | **Dyddiad Geni** |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

| **Gwybodaeth am y rhiant/gofalwr ac aelodau arwyddocaol o aelodau'r teulu neu rai sy'n byw ar yr aelwyd** | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **Dyddiad Geni** | **Perthynas** |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

| **Trosolwg o ymgysylltiad eich asiantaeth gyda'r plentyn/plant a'r teulu** | |
|---|---|
| **Cynnwys ffactorau sy'n berthnasol i'ch gwasanaeth megis:**<br><br>• pwrpas eich ymgysylltiad<br>• lefel ymgysylltiad a phresenoldeb<br>• gwasanaethau neu ofal a ddarparwyd<br>• anawsterau neu heriau<br>• atgyfeiriadau i wasanaethau eraill<br>• cynnydd hyd yma<br>• cyfnod yr ymgysylltiad | |

| | |
|---|---|
| • unrhyw gamau gweithredu sydd ar ôl | |

| |
|---|
| **Risgiau neu Bryderon Presennol** (os oes rhai, nodwch isod) |
| A oes unrhyw risgiau neu bryderon presennol? Oes ☐ Na ☐ |

| | |
|---|---|
| Cynhwyswch y ffactorau hynny sydd yn eich barn chi yn cynrychioli risg o niwed arwyddocaol neu gynnydd yn y risg o niwed i'r plentyn/plant? | |

| |
|---|
| **Ffactorau Hanesyddol neu Ffactorau sy'n Cymhlethu** (os oes rhai, nodwch isod) |
| A oes yna unrhyw ffactorau hanesyddol neu ffactorau sy'n cymhlethu?<br>Oes ☐ Na ☐ |

| | |
|---|---|
| Cynhwyswch unrhyw hanes blaenorol o bryderon yn y teulu. Unrhyw beth a allai lesteirio datrys y risgiau presennol ac unrhyw gysylltiad blaenorol gyda'ch asiantaeth. | |

| |
|---|
| **Ffactorau Diogelwch / Amddiffynnol** (os oes rhai, nodwch isod) |
| A oes yna unrhyw ffactorau diogelwch / amddiffynnol? Oes ☐ Na ☐ |

| | |
|---|---|
| Ffactorau sydd yn eich barn chi yn lleihau risg niwed i'r plentyn/plant neu'n helpu i sicrhau diogelwch. | |

| | |
|---|---|
| **Cryfderau / Ffactorau Positif** (os oes rhai, nodwch isod) | |
| A oes yna unrhyw gryfderau / ffactorau positif? Oes ☐ Na ☐ | |
| Nodweddion o fywyd teuluol a rhianta sy'n cael effaith bositif ar fywyd y plentyn / fywydau'r plant. Unrhyw beth y mae'r rhieni/gofalwyr yn ei wneud yn dda a phe na byddent yn ei wneud, a fyddai'n cael eu hystyried yn ffactor risg. | |
| **Meysydd Amwys** (os oes rhai, nodwch isod) | |
| A oes yna unrhyw feysydd amwys? Oes ☐ Na ☐ | |
| Dylai hyn ymgorffori unrhyw feysydd sy'n aneglur neu a allai fod o bryder posibl i'r plentyn/plant ond sydd angen mwy o amser, esboniad neu asesiad. | |

| **Digwyddiadau Arwyddocaol**<br><br>I fewnosod rhes newydd, cliciwch ar TABLE, yna INSERT a dewis ROWS BELOW. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dyddiad y digwyddiad, anaf neu ddigwyddiad arwyddocaol** | **Math o ddigwyddiad e.e. genedigaeth, marwolaeth, ICPCC, Asesiad** | **Manylion a chanlyniad h.y. beth ddigwyddodd o ganlyniad i'r digwyddiad e.e. arhosodd y plentyn yn yr ysbyty ar ôl cael ei eni'n fuan, arestiwyd y tad ar ôl digwyddiad o drais ddomestig, gwaharddwyd y plentyn o'r ysgol, Cynllun Plentyn mewn Angen wedi ei lunio.** | **Enw'r plentyn/plant y mae'r digwyddiadau yn berthnasol iddyn nhw (os nad pob un)** | **Ffynhonnell yr wybodaeth e.e. yr heddlu, ffeil arall awdurdod lleol, ysgol ac ati** |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

| |
|---|
| **Beth yn eich barn chi yw'r canlyniad tebygol i'r plentyn/plant os bydd y sefyllfa bresennol yn parhau?** |
| |
| **Pa newidiadau fyddech chi angen eu gweld yn y teulu i'ch sicrhau bod risg niwed i'r plentyn/plant wedi ei leihau yn ddigonol?** |
| |
| **Beth all eich asiantaeth chi ei gyfrannu i gynllun i gadw'r plentyn/plant yn ddiogel?** |
| |

| |
|---|
| **Unrhyw wybodaeth berthnasol arall** |
| |

| | Do | Na |
|---|---|---|
| **A yw'r rhieni/gofalwyr wedi gweld yr adroddiad hwn?** | ☐ | ☐ |
| **A yw'r plentyn/plant/pobl ifanc wedi gweld yr adroddiad hwn?** | ☐ | ☐ |

| |
|---|
| **Beth yw barn y rhieni/gofalwyr a'r plentyn/plant/pobl ifanc ar yr adroddiad hwn?** |
| |

**Cwblhawyd yr adroddiad gan:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw** | | **Teitl y Swydd** | |
| **Llofnod** | | **Dyddiad** | |
| **Llofnod Rhiant/Gofalwr neu wedi ei rannu ar lafar (dilëwch fel y bo'n briodol)** | | **Dyddiad** | |
| **Rheswm dros beidio â chael llofnod** | | **Dyddiad** | |